# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mawrth 2014 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.50am.

**PRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes); Rh Williams (Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| P Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau, ond dywedodd y Cyng. P Pemberton y byddai'n gadael y cyfarfod cyn y drafodaeth ar brosiect tân ac ambiwlans Wrecsam.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR 2013

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub, a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2013, eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nodwyd y byddai'r Clerc yn darparu diweddariad ar gofnod 15.4 yn rhan II o'r cyfarfod.

3.2 Cyllideb Ddrafft 2014-15 – yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Trysorydd wedi dweud y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal o bosibl i benderfynu ar unrhyw newidiadau i'r gyllideb, ond ni fu unrhyw newidiadau i'r cytundeb dros dro ar y gyllideb a wnaed ym mis Rhagfyr, felly ni fu angen cynnal cyfarfod arbennig.

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Ionawr a Mawrth 2014 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 SWYDD PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL

6.1 Esboniodd y Prif Swyddog i ddeuddydd o broses ddethol gael eu cynnal gyda chyfweliadau gyda'r swyddogion a'r aelodau. Cafwyd penderfyniad unfrydol i benodi Richard Fairhead, llongyfarchwyd y PSTC Fairhead ac ategwyd hyn gan y Cadeirydd a'r Aelodau.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 ALLDRO AMCANOL 2013-14

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr alldro amcanol a amcangyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.

7.2 Cadarnhaodd y Trysorydd mai'r tanwariant a ragamcenir ar hyn o bryd oedd tua £614,000, ac roedd hyn yn annhebygol o newid ryw lawer cyn diwedd Mawrth oni bai fod digwyddiadau mawr, er enghraifft tanau eithin neu lifogydd.

7.3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16 Rhagfyr 2013 roedd yr Aelodau wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu rhan o'r rhaglen gyfalaf yn y flwyddyn gyfredol oherwydd y byddai hyn yn lleihau costau dyledion yn y dyfodol o ganlyniad i'r rhaglen gyfalaf gyfredol, ac felly byddai'n lleihau'r codiadau ar y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Er mwyn lleihau'r costau dyledion ymhellach, argymhellwyd defnyddio unrhyw danwariant sydd ar ôl i dalu am asedau cyfalaf.

7.4 I ateb cwestiwn gan Aelod ynglŷn â chost y gweithredu diwydiannol, esboniodd y DBST fod cryn dipyn o amser swyddogion wedi mynd ar baratoi ar gyfer y gweithredu diwydiannol ond mai'r brif gost oedd hyfforddi'r cymorth filwrol. Atgoffwyd yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn a fyddai'r ATAau yng Nghymru angen cymorth milwrol yn ystod cyfnod o streicio ac i ddechrau roedd yr Awdurdod wedi derbyn y cynnig ond yn ddiweddarach roedd wedi cael sicrwydd y byddai'n gallu gwneud heb y cymorth milwrol, ond erbyn hynny roedd y fyddin wedi ei hyfforddi a'r gost wedi ei rhannu rhwng y tri ATA.

7.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r tanwariant a amcangyfrifir;**

**(ii) cytuno i neilltuo arian ar gyfer gwariant cyfalaf a gymeradwywyd er mwyn lleihau costau dyledion yn dyfodol.**

8 DANGOSYDDION DARBODUS, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

8.1 Cyflwynwyd i'r Aelodau y Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2014/15. Esboniodd y Trysorydd fod gan y Pwyllgor Archwilio bŵer wedi ei ddirprwyo iddo i adolygu'r dogfennau hyn yn fanylach, a gwnaeth hyn yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2014.

8.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o bedair elfen allweddol yr adroddiad, a'r argymhellion sydd ynddynt, sef**

**(i) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan Cod Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**

**(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca yn 2014/15 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys;**

**(iii) y strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â buddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**

**(iv) Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

9 DATGANIAD POLISI CYFLOGAU

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn

- rhoi gwybod i'r Aelodau am y gofyniad ar yr Awdurdod i lunio datganiad polisi cyflogau bob blwyddyn o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011;
- ceisio cymeradwyaeth i'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2014/15, fel y nodir yn yr adroddiad.

9.2 Nodwyd bod y datganiad wedi cael ei newid ar gyfer 2014/15 er mwyn cydymffurfio â'r nodiadau cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer Atebolrwydd Llywodraeth Leol yng Nghymru o ran Cyflogau. Eglurodd y Clerc fod y datganiad polisi cyflogau yn ddisgrifiad blynyddol o bolisi a threfn gyfredol yr Awdurdod y mae'n rhaid eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth.

9.3 I ateb cwestiwn gan Aelod ynglŷn ag ailgyflogi, cadarnhawyd bod y polisi hwn yn cyd-fynd â chanllawiau a rheoliadau'r Llywodraeth, ac mae'n cynnwys unrhyw un sy'n ymddeol dan gynllun pensiwn y diffoddwyr tân.

9.4 I ateb cwestiwn arall ynglŷn â thalu bonws i brif swyddogion, cadarnhawyd nad yw'r Awdurdod hwn yn talu bonws i'r un aelod o'i staff, yn wahanol i rai awdurdodau tân ac achub eraill.

**9.5 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2014/15.**

10 CYNLLUN I LEIHAU RISG A GWELLA 2014-15

10.1 Cafodd y Cynllun i Leihau Risg a Gwella drafft 2014-15 ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi. Mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru lunio Cynllun Gwella ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch ac yna ei gyhoeddi.

10.2 Esboniodd y DBST fod y Panel Gweithredol, ar ôl yr ymgynghoriad ar yr amcanion gwella a gynigid, wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ac wedi cymeradwyo bod drafft terfynol o'r Cynllun yn cael ei baratoi er mwyn i'r Awdurdod llawn ei gymeradwyo. Atgoffwyd yr Aelodau beth yw'r tri amcan gwella, sef:

- o Amcan Gwella 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

- o Amcan Gwella 2 – Gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 i 2016/17 sy'n ariannu lefel gyfredol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu ar y gost o wneud hynny i gyfateb i £1 y flwyddyn y pen yn ychwanegol.

- o Amcan Gwella 3 – Sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau o wasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau rheoli er mwyn cael y gofal tân gorau posibl yn yr ardal.

10.3 Cadarnhaodd yr Aelodau eu bod yn cefnogi'r tair amcan, ac roeddent yn falch fod yr Awdurdod wedi gallu rhewi ei gyllideb am bedwaredd flwyddyn tra hefyd yn cynnal lefel y gwasanaethau, ac roeddent hefyd yn cydnabod mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth er mwyn ceisio lleihau'r galw ar y gwasanaeth tân ac achub. Esboniodd y PST mai strategaeth greiddiol yr Awdurdod yw parhau i leihau'r galw ar y Gwasanaeth, ond nad yw'n wastad yn bosibl lleihau'r gyllideb i gyd-fynd â'r galw cyfredol oherwydd gallai nifer y digwyddiadau godi eto yn y dyfodol.

10.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft terfynol o Gynllun Gwella 2014-15 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd Mawrth 2014.**

11 BIL RHOI TERFYN AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A CHAM-DRIN DOMESTIG (CYMRU)

11.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am hynt y Bil uchod, ei oblygiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub, a'r camau a gymerir i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

11.2 Bu'r Aelodau'n trafod yr adroddiad a'r Bil arfaethedig, ac roeddent yn gefnogol i'r gwaith a wneir ar lefel Cymru gyfan i baratoi ar gyfer dyfodiad y ddeddfwriaeth. Dywedodd y Clerc fod Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru yn atebol am gynllun gweithredu'r prosiect 10,000 o fywydau diogelach, a bod hwnnw'n mynd rhagddo'n dda.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi**
- **(i) cynnwys yr adroddiad a'r amseriadau sy'n gysylltiedig â'r Bil;**
- **(ii) y gwaith sy'n mynd ymlaen drwy Bwyllgor Cymru gyfan ar Leihau Risg Cymunedol;**
- **(iii) y goblygiadau i'r Awdurdod Tân ac Achub.**

12 ADRODDIAD Y COMISIWN AR LYWODRAETHU A DARPARU GWASANAETHAU CYHOEDDUS (ADRODDIAD WILLIAMS)

12.1 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol fod Adroddiad Williams wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac esboniodd y PST beth yw effaith bosibl yr Adroddiad ar yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru; gallai bron bob un o'r darpariaethau sydd yn yr adroddiad gael effaith yr Awdurdod mewn rhyw ffordd. Cynhaliwyd trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol a'r Panel Gweithredol, a phenderfynwyd peidio â gwneud unrhyw sylwadau pellach hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb hi i'r adroddiad. Cadarnhaodd y Clerc mai dyma farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd.

12.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

13 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

13.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2014/15 wedi ei gyhoeddi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion y mae'n rhaid i'r awdurdod eu mabwysiadau mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau.

13.2 Mynegodd y Cyng. Dunbar siom ynglŷn â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'i adroddiad, a gofyn i gofnod gael ei wneud ei fod yn erbyn yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad. Roedd o'r farn fod y cynghorwyr sydd ar yr ATA yn cael digon o gydnabyddiaeth ariannol heb unrhyw godiadau, a'i bod yn annheg i'r trethdalwr yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gyda holl gyrff y sector cyhoeddus yn ceisio arbed arian, fod cynghorwyr yn cael codiad yn eu cydnabyddiaeth ariannol. Dywedodd y Clerc drachefn fod yn rhaid i'r Awdurdod gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

13.3 Mynegodd y Cyng. Wright yntau siom am ddiffyg presenoldeb gan ei gydweithwyr o Gyngor Gwynedd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, a theimlai na ddylai'r aelodau gael eu talu oni bai eu bod yn dod i gyfarfodydd.

13.4 **PENDERFYNWYD nodi y bydd y canlynol yn dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2014:**

**(i) bydd cyfradd Cyflog Sylfaenol o £1,700 y flwyddyn am ymrwymiad amser o 20 niwrnod y flwyddyn yn daladwy i aelodau heblaw Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio;**
**(ii) bydd Cadeirydd yr Awdurdod yn cael Uwch Gyflog ATA yng Nghymru, sydd wedi ei gysoni â chyflog Band 3 (£10,400);**
**(iii) bydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn cael Uwch Gyflog sydd wedi ei gysoni â chyflog Band 4 (£5,400);**
**(iv) bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael Uwch Gyflog o £5,400;**
**(v) bydd y cyfraddau teithio, cynhaliaeth a lwfans gofal yn aros yr un fath.**

14 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

14.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno er mwyn gofyn i'r Aelodau nodi a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol oddi wrth y Pwyllgor Safonau.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

15 INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

15.1 Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am gostau yswiriant indemniad, ac yn gofyn i'r Aelodau benderfynu ar y ffordd ymlaen. Nodwyd bod y protocol wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau a'r Panel Gweithredol, ac yr argymhellwyd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

15.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo:**

**(i) rhoi indemniad i ymorol am y costau cyfreithiol o amddiffyn cŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelod wedi torri'r cod ymddygiad ac na fydd unrhyw gostau cyfreithiol yn cael eu talu mewn perthynas â chŵyn a gaiff ei thrin dan y drefn datrys yn lleol;**

**(ii) os ceir bod yr aelod wedi torri'r cod**

**a. a'i fod yn cael ei ddiarddel neu ei atal; neu**
**b. ei fod wedi torri'r cod yn fwriadol neu'n ddi-hid (ni waeth os oes unrhyw gosb)**

**rhaid ad-dalu i'r awdurdod unrhyw arian, a'r swm i gyd, a dalwyd dan yr indemniad, ac os bydd yr amgylchiadau a restrir yn isbaragraffau 'a' neu 'b' yn codi, ac:**

- **na ofynnwyd am unrhyw arian ac na thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU**
- **talwyd rhywfaint o'r costau cyfreithiol ond nid y cyfan**

**ni wneir unrhyw daliadau neu ni wneir unrhyw daliadau pellach (yn ychwanegol at ofyn am ad-dalu unrhyw daliadau).**

**(iii) os ceir yr aelod yn euog o dorri'r cod ac na roddir unrhyw gosb neu os yw'r aelod yn cael ei geryddu, gall yr Awdurdod ofyn am ad-dalu cyfran o unrhyw arian a dalwyd dan yr indemniad. Os**

- **na ofynnwyd am unrhyw arian ac na thalwyd unrhyw arian dan yr indemniad; NEU**
- **talwyd rhywfaint, ond nid y cyfan, o'r costau cyfreithiol**

**gall yr Awdurdod ddewis talu cyfran yn unig o gostau'r aelodau, a gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gostau a dalwyd yn uwch na'r gyfran honno gael eu had-dalu;**

**iv) bydd costau unrhyw hawliadau dan yr indemniad wedi eu cyfyngu i £20,000, a chânt eu talu o'r gronfa gyffredinol.**

16 PROTOCOL CYSYLLTIADAU AELODAU/SWYDDOGION

16.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried protocol cysylltiadau aelodau/swyddogion ar gyfer yr Awdurdod. Nodwyd bod y protocol wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau a'r Panel Gweithredol, ac yr argymhellwyd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

16.2 Ar ôl trafod a oedd angen hyfforddiant ar y cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion, cytunwyd y dylai'r awdurdodau cyfansoddol fod yn darparu hyfforddiant ar faterion o'r fath a phetai'r Awdurdod hefyd yn darparu hyfforddiant, mae'n bosibl y byddai dyblygu'n digwydd; nodwyd hefyd fod yr holl Aelodau'n llofnodi cod ymddygiad, a dylai hynny amddiffyn yr Aelodau a'r Awdurdod yn ddigonol.

16.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi cysylltiadau aelodau/swyddogion.**

17 TREFN DATRYS YN LLEOL

17.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried Trefn Datrys yn Lleol ar gyfer cwynion am Aelodau. Nodwyd bod y protocol wedi

cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau a'r Panel Gweithredol, ac yr argymhellwyd ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn.

17.2 Nodwyd bod hyn yn ganlyniad i Ganllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad i Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn Ebrill 2010, ac a oedd yn dweud ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu gweithdrefnau datrys yn lleol er mwyn ymdrin â chwynion lefel isel a wneir gan aelod am gyd-aelod.

17.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drefn datrys yn lleol.**

18 COFNODION ER GWYBODAETH

18.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol eu cyflwyno er gwybodaeth:

- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Ionawr
- cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Ionawr
- cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror.

18.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion er gwybodaeth.**

RHAN II - O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gofynnwyd i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod tra'r oedd yr eitem fusnes(eitemau busnes) canlynol yn cael eu trafod gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu iddynt.

Yn y fan hon, gadawodd y Cyng. P Pemberton y cyfarfod.

19 GORSAF DÂN AC AMBIWLANS AR Y CYD WRECSAM

19.1 Rhoddodd y DBST yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â'r orsaf dân ac ambiwlans ar y cyd sydd yn yr arfaeth yn Wrecsam.

19.2 Ar ôl trafod y materion sydd yn yr adroddiad a nodi prif ddyddiadau'r prosiect,

19.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cyflwyno'r achos busnes llawn i Lywodraeth Cymru, ar sail ffigwr diwygiedig rhagamcanol o £6,176,173.**

Yn y fan hon, gadawodd y Cyng. D Miles y cyfarfod.

20 ANGHYDFOD DIWYDIANNOL

20.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad ar yr anghydfod diwydiannol, a nodwyd na fu unrhyw streicio ers 3ydd Ionawr 2014. Bydd yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau pellach.

20.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.**

21 “PROSIECT Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU 2013” LLYWODRAETH CYMRU

21.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i rannu’r adroddiad terfynol ar “Brosiect y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru 2013" gyda’r Aelodau.

21.2 Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am y prosiect yng nghyfarfod yr Awdurdod ym Mehefin 2013. Ers hynny, roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am ddatblygiadau’r prosiect. Erbyn hyn, roedd yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd i’r Gweinidog wedi ei rannu’n gyfrinachol gyda’r Aelodau, ynghyd â llythyr y Cadeirydd at y Gweinidog dyddiedig 10fed Chwefror 2014 a’i llythyr hithau yn ei ateb dyddiedig 4ydd Mawrth 2014.

21.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a’r ohebiaeth ysgrifenedig rhwng y Cadeirydd a’r Gweinidog.**

22 MATERION YN CODI O DAN RAN II O GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 RHAGFYR 2013

22.1 Cyfeiriodd y Clerc ar benderfyniadau’r Awdurdod ynglŷn â strwythur yr uwch reolwyr. Esboniodd fod nifer parhaol y sefydliad yn caniatáu i gael tri PSTC, ac yn dilyn ymddeoliad Paul Claydon a phenodi Richard Fairhead yn barhaol i’r swydd PSTC, dim ond dau PSTC oedd. Ystyrir yr opsiynau ar gyfer y dyfodol ynglŷn â recriwtio i’r drydedd swydd PSTC, a chaiff yr Aelodau wybod beth yw’r datblygiadau.

22.2 Roedd y Clerc wedi cynnal adolygiad o feintiau cymharol y swyddi ac wedi gwerthuso’r tair swydd PSTC, ac ar ôl ymgynghori â’r Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd penderfynwyd y dylai’r cyflogau fod yn gyfartal o fewn un raddfa gyflog, ar yr amod na fyddai lefel taliadau’r raddfa gyflog yn uwch na cyflog uchaf cyfredol y tair swydd.

22.3 **PENDERFYNWYD nodi’r diweddariad a ddarparwyd.**